

## TAKE THE TASTY CHALLENGE

CYSTADLEUAETH MENTER A CHYFLOGADWYEDD

Mae Gyrfaoedd Blasus Cymru yn lansio Cystadleuaeth Her Fenter a Chyflogadwyedd ar gyfer ysgolion sy'n darparu Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaenol ar Gyfnod Allweddol 4. Mae'r gystadleuaeth, sy'n seiliedig ar friff a luniwyd gan yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod ac wedi'i chymeradwyo gan CBAC, yn anelu at ddarparu cyfle cyffrous i ddysgwyr gwblhau'r Her Menter a Chyflogadwyedd, ac os maent yn derbyn lle ar y rhestr fer ar gyfer y rownd derfynol, byddant yn cael cyfle i ddangos eu syniadau yn ystod digwyddiad clodfawr Blas Cymru a fydd yn cael ei gynnal yn y Celtic Manor.



### Y GYSTADLEUAETH

Mae Gyrfaoedd Blasus Cymru yn herio eich tîm i greu cynnyrch bwyd a diod iachus newydd, gyda tharddiad Cymreig. Mae'n rhaid i chi weithio mewn timau o 3-6 i gynnal gwaith ymchwil i'r farchnad, cynllun busnes a chynnig a ddylid ei ddangos mewn arddangosiad gweledol cyn cael ei gyflwyno gerbron panel yn y pen draw.

Yn ystod yr Her Flasmus, bydd y gystadleuaeth yn cynnig cyfle i ddysgwyr weithio gydag eraill trwy adeiladu tîm, a datblygu eu sgiliau a'u hymwybyddiaeth o'r diwydiant bwyd a diod.

Bydd hefyd yn eu galluogi i ddatblygu sgiliau Creadigol ac Arloesedd, Effeithiolrwydd Personol a Llythrennedd Digidol a'u rhoi ar waith fel rhan o'r her.

Mae Briff yr Her ar gael yn yr adran Bagloriaeth Cymru ar wefan CBAC: [www.wjec.co.uk](http://www.wjec.co.uk)

Gall pob canolfan gynnal cystadleuaeth fewnol i benderfynu ar y syniad busnes buddugol. Os hoffech gael cefnogaeth gan fusnes bwyd a diod lleol, cysylltwch â ni a gallwn drefnu hynny ar eich rhan.

Dylid anfon copi electronig o'r dystiolaeth o Froliant buddugol, ynghyd â deunyddiau atodol, at [info@nsafd.co.uk](mailto:info@nsafd.co.uk) erbyn **31/01/2019**. Bydd y rhai sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu hysbysu erbyn **28/02/2019**.

Bydd y timau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael gwahoddiad i gyflwyno eu syniadau gerbron panel o feirniaid yn ystod digwyddiad Blas Cymru yn y Celtic Manor ddydd iau **21 Mawrth 2019**.

**Good luck with the Tasty Challenge!**

TO FIND OUT MORE VISIT:  
**TASTYCAREERSWALES.ORG.UK**

E. [INFO@TASTYCAREERS.ORG.UK](mailto:INFO@TASTYCAREERS.ORG.UK)  
T. 0845 644 0558

f [FACEBOOK.COM/TASTYCAREERS](https://www.facebook.com/TASTYCAREERS)  
t [@TASTYCAREERS](https://twitter.com/TASTYCAREERS)  
i [@TASTYCAREERS](https://www.instagram.com/TASTYCAREERS)



**TASTY  
CHALLENGE  
2018**

